



Gyda'n gilydd
byddwn yn
rhoi terfyn ar
ddigartrefedd

Talwch Ddigon at y Gost:

Ymgyrch gan Crisis i adfer cyfraddau'r
Lwfans Tai Lleol er mwyn atal digartrefedd

Beth ydy'r ymgyrch 'Talwch Ddigon at y Gost'?

Mae Crisis yn galw ar Lywodraeth y DU i adfer cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol er mwyn iddo fod yn ddigon i dalu am gostau rhent, a sicrhau na fydd mwy o bobl yn mynd yn ddigartref.

Colli tenantiaeth breifat yw un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros ddigartrefedd. Mae pobl sydd â swyddi gyda chyflogau isel, neu sy'n gweld eu hincwm yn lleihau'n annisgwyl ar ôl colli swydd neu salwch, yn mynd yn ddigartref gan fod y cymorth tai sydd ar gael drwy'r Credyd Cynhwysol yn is o lawer na'r rhent yn y rhan fwyaf o ardaloedd ym Mhrydain.

Mae'r Lwfans Tai Lleol yn helpu pobl i dalu rhent o dan y Credyd Cynhwysol. Ond, yn sgil toriadau i'r Lwfans, mae ein gwaith ymchwil gyda'r Sefydliad Tai Siartredig yn dangos nad yw pobl sengl, cyplau neu deuluoedd bach sydd angen y cymorth hwn ond yn gallu fforddio un rhan o bump neu lai o'r rhenti preifat lleol mewn 92% o ardaloedd ym Mhrydain. Yn sgil hynny, mae miloedd o bobl mewn perygl o fod yn ddigartref wrth iddyn nhw wynebu dewisiadau amhosibl – talu'r rhent, neu dalu am fwyd a biliau. Pan fydd y pwysau'n mynd yn ormod, mae pobl yn mynd i ddyled gyda'u rhent, ac yn mynd yn ddigartref.

Mae angen adeiladu mwy o dai cymdeithasol er mwyn datrys yr argyfwng hwn yn y tymor hir, ond nes bydd digon o dai i fodloni'r galw, all pobl ar incwm isel ddim parhau i ysgwyddo'r baich.

Beth ydy'r Lwfans Tai Lleol (LHA)?

Cafodd y Lwfans Tai Lleol – sy'n fudd-dal tai ac yn rhan o'r Credyd Cynhwysol – ei greu i helpu pobl i dalu eu rhent nes byddan nhw'n ôl ar eu traed.

Pan gafodd y Lwfans Tai Lleol ei gyflwyno, roedd yn ddigon i dalu am 50% o renti lleol. Yn 2011, cafodd ei leihau i 30%. Yn 2012, torrwyd y cysylltiad rhwng y cyfraddau a rhenti lleol, a gwelwyd mwy a mwy o achosion lle nad oedd y cyfraddau'n ddigon i dalu am 30% o'r rhenti isaf. Ym mis Ebrill 2016, cafodd cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol eu rhewi'n llwyr am bedair blynedd.

Pam rydym yn ymgyrchu?

Yr Adolygiad o Wariant a gaiff ei gyhoeddi cyn bo hir – lle bydd y Canghellor yn cyhoeddi cynlluniau buddsoddi a gwasanaethau cyhoeddus newydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod – yw'r cyfle gorau i sicrhau ailfuddsoddiad yng nghyfraddau'r Lwfans Tai Lleol. Bydd hyn yn cael effaith ar unwaith ar atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd nes bydd digon o dai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu, a sicrhau bod y Credyd Cynhwysol yn ffordd effeithiol o atal digartrefedd. Mae

hyn yn allweddol er mwyn i Lywodraeth y DU fwrw ymlaen â'i hymrwymiaadau i leihau'r achosion o ddigartrefedd, a rhoi diwedd ar gysgu ar y stryd erbyn 2027.

Mae ein gwaith ymchwil gyda'r Sefydliad Tai Siartredig yn dangos bod 97% o ardaloedd yn Lloegr, 82% yng Nghymru a 67% yn yr Alban yn rhy ddrud i bobl sengl, cyplau neu deuluoedd bach, o ran cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol. Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan Brifysgol Metropolitan Manceinion ar gyfer y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl, mae rhewi'r Lwfans Tai Lleol wedi arwain at ddigartrefedd ymysg pobl o'r sector rhentu preifat. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod rhewi'r Lwfans yn golygu bod rhentwyr mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi wrth iddyn nhw gael trafferth talu'r rhent, a'i fod hefyd yn cyfyngu'r hyn y gall pobl ei fforddio wrth chwilio am lety ar ôl cael eu troi allan. Mae hynny'n arwain at ddigartrefedd.

Mae cynghorau'n dweud ei bod yn fwyfwy anodd helpu pobl sy'n ddigartref i ddod o hyd i gartref yn y sector rhentu preifat – dyna maen nhw'n troi ato'n aml oherwydd prinder tai cymdeithasol. Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr, roedd 86% o'r cynghorau a ymatebodd (151) yn dweud bod fforddiadwyedd y sector rhentu preifat yn ffactor mawr neu gymedrol sy'n ei gwneud hi'n anoddach dod o hyd i gartref ar gyfer pobl ddigartref. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio mwy ar lety dros dro, sy'n costio bron i £1bn y flwyddyn i gynghorau.

Gan fod mwy o bobl ar incwm isel yn byw yn y sector rhentu preifat, allwn ni ddim fforddio gadael i'r argyfwng hwn o ran fforddiadwyedd tai barhau.

Beth sydd angen digwydd?

Mae Crisis yn galw am adfer cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol er mwyn iddo fod yn ddigon i dalu am o leiaf 30% o renti lleol yn y sector rhentu preifat. Bydd hyn yn lleihau'r perygl o ddigartrefedd yn syth ymysg pobl sy'n rhentu'n breifat, ac yn cael trafferth talu'r rhent. Bydd hefyd yn golygu y gall cynghorau helpu pobl i beidio â bod yn ddigartref mwyach drwy ddod o hyd i gartrefi fforddiadwy iddyn nhw yn y

sector rhentu preifat, yn hytrach na chynnal eu digartrefedd mewn llety dros dro sy'n ddrud ac weithiau'n anaddas.

Yn y tymor hir, rydym am weld mwy o gartrefi fforddiadwy'n cael eu hadeiladu ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Bydd hyn yn golygu bod pobl yn gallu fforddio eu rhent pan fyddan nhw'n dechrau gweithio ac yn cael llai o gymorth gan y Lwfans Tai Lleol, neu ddim cymorth o gwbl.

Ond, mae'n cymryd amser i adeiladu digon o gartrefi fforddiadwy. Mae angen i ni wneud y sector rhentu preifat yn fforddiadwy nawr, er mwyn helpu pobl i gael cartrefi a swyddi sefydlog, ac atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Beth allwch chi ei wneud?

Ar hyn o bryd, mae angen i ni ddangos i'n gwleidyddion bod y cyhoedd yn cefnogi hyn. Gallwch ychwanegu'ch llais chi drwy gofrestru yn www.crisis.org.uk/coverthecost ac ymuno â dros 55,000 o ymgyrchwyr Crisis mewn ymgyrch i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Mae'n hollbwysig ein bod yn lledaenu'r neges drwy rannu'r ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol, a gofynnwch i'ch ffrindiau a'ch teulu ymuno hefyd.

Dim ond y dechrau yw hyn, felly cadwch lygad ar agor i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch.

Neges bosib ar Twitter

Mae pawb yn haeddu cartref fforddiadwy a sefydlog – dyna pam rydw i'n cefnogi ymgyrch [@Crisis_UK](https://twitter.com/Crisis_UK) sy'n galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd mwy o bobl yn mynd yn ddigartref [#CovertheCost](https://twitter.com/CovertheCost). Ymunwch â mi: bit.ly/2VtaRIA

I gael mwy o wybodaeth am sut mae cymryd rhan, cysylltwch â:

Sorana Vieru, Uwch Swyddog Ymgyrchoedd
[Sorana.Vieru@crisis.org.uk/020 7426 3833](mailto:Sorana.Vieru@crisis.org.uk/02074263833)